**PWYLLGOR CEFNOGI A DATBLYGU AELODAU**

**29 Gorffennaf 2020**

Yn bresennol: Cynghorydd P Kidney (Dirprwy Gadeirydd yn y Gadair)
Cynghorydd D Clements, Cynghorydd K Doolin, Mrs S Hoss, Cynghorydd M James, Mrs J James, Dr R Plummer a'r Cynghorydd M Williams.

(Cyfarfod Rhithiol: 12.30pm – 1.00pm)

**1. Ethol Cadeirydd**

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL** ethol Mrs J James yn Gadeirydd am y flwyddyn i ddod.

*[Cymerodd Mrs J James y Gadair a bu'n llywyddu am weddill y cyfarfod.]*

**2. Ethol Dirprwy Gadeirydd**

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL** ethol y Cynghorydd P Kidney yn Ddirprwy Gadeirydd am y flwyddyn i ddod.

**3. Ymddiheuriadau am Absenoldeb**

Derbyniwyd ymddiheuriad am fod yn absennol oddi wrth y Cynghorydd A Wilcox.

**4. Datgan Buddiannau**

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

**5. Cofnodion**

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 6ed o Fai 2020 i'w cadarnhau a'u dilysu.

**PENDERFYNWYD** cadarnhau a dilysu cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 6ed o Fai 2020.

**6. Cynllun Hyfforddiant Datblygu Aelodau**

Llongyfarchodd y Rheolwr Gwasanaethau Gweinyddol a Democrataidd y Cadeirydd a'r Dirprwy Gadeirydd ar eu penodiadau, gan ddweud mai pleser oedd cydweithio gyda hwy dros y flwyddyn flaenorol.

Aeth rhagddi i atgoffa'r Aelodau bod yr Awdurdod wedi mabwysiadu'r Strategaeth Datblygu Aelodau fis Gorffennaf 2019 a bod y strategaeth yn cynnwys ymrwymiad i gynnig Adolygiad Datblygu Personol i bob Aelod; roedd dogfen ganllawiau, oedd yn nodi'r broses o wneud y cyfryw adolygiadau, wedi'i mabwysiadu gan yr Awdurdod ar y 6ed o Fai 2020. Ers hynny roedd nifer o'r Aelodau wedi cwblhau eu hadolygiad, ac roedd deg Cynllun Cefnogi Personol wedi'u dychwelwyd. Roedd Dadansoddiad

o Anghenion Hyfforddiant wedi'i gwblhau, ac o'r dadansoddiad hwn datblygwyd Cynllun Hyfforddiant, ac roedd y dadansoddiad a'r Cynllun wedi'u hatodi i'r adroddiad.

Dywedwyd bod ambell angen am hyfforddiant ond wedi'u codi gan un Aelod, ond barnwyd eu bod o ddiddordeb neu o fudd i bawb, tra bod eraill yn fwy personol, fyddai'n derbyn sylw ar wahân gyda'r Aelodau dan sylw. Gan amlaf y dulliau o gyflwyno'r hyfforddiant oedd naill ai drwy gynnal gweithdy neu drwy e-ddysgu – a llawer o'r e-ddysgu yn seiliedig ar ddeunydd o wefan Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Gofynnir i'r Aelodau roi gwybod i'r Rheolwr Gwasanaethau Gweinyddol a Democrataidd os oeddent wedi cwblhau unrhyw un o'r hyfforddiant hyn fel y gellir ei gofnodi a'i ddefnyddio yn dystiolaeth yn y cyflwyniad am Siarter Uwch.

Dywedodd y Cadeirydd bod meini prawf y Siarter Uwch yn gofyn bod mwyafrif o'r Aelodau wedi gwneud adolygiad, a bod hyn wedi'i wireddu. Serch hynny awgrymodd bod y swyddog yn cael gair bach tawel yng nghlust yr Aelodau nad ydynt eto wedi gwneud yr adolygiad i'w hannog i gymryd rhan. Dywedodd ei bod hithau ac Aelodau eraill yn hapus i hwyluso'r cyfryw adolygiad. Gofynnodd Aelod arall am i'r Pwyllgor dderbyn diweddariad o ganran yr Aelodau sydd wedi cwblhau Adolygiad Datblygu Personol a chyflwyno Cynllun Cefnogi Personol yn y cyfarfod nesaf. Hefyd roedd yr Aelod yn dymuno cofnodi ei gwerthfawrogiad o'r modd yr oedd yr Awdurdod Parc Cenedlaethol yn cefnogi ac yn datblygu ei Aelodau ac o'r farn y gallai sefydliadau eraill ddysgu o hyn.

Roedd cwestiwn arall yn ymwneud ag effaith y pandemig COVID-19 ar amserlen cyflwyno'r cais am Siarter Uwch. Atebodd y swyddog mai'r bwriad oedd gwneud hyn yn ddiweddarach yn y flwyddyn 2020. Fodd bynnag er mwyn cyflwyno tystiolaeth bod yr hyfforddiant wedi'i gwblhau yn unol â'r cynllun, mae'n bosibl y bydd oedi cyn gallu cyflwyno'r cais. Awgrymodd y Cadeirydd y gallai cael gair gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ynglŷn ag effaith y pandemig ar Asesiadau Siarter Uwch fod yn fuddiol.

Gan droi at yr hyfforddiant ei hun, holodd un Aelod a allai'r swyddog feddwl am unrhyw anghenion hyfforddiant na fyddai'r Aelodau eu hunain o bosibl wedi meddwl amdanynt, a chytunodd y swyddog i feddwl am hyn. Roedd yr Aelodau yn hapus i gymeradwyo'r Cynllun, ond hefyd yn awgrymu y gallai sesiwn hyfforddiant ar waith Parciau Cenedlaethol Cymru o bosibl fod yn ddiddorol, a hefyd da beth fyddai cael trafodaeth ar y modd y gallai'r Awdurdod ddylanwadu ar bolisi Llywodraeth Cymru ar ail gartrefi oedd wedi'i nodi fel mater oedd yn peri pryder yng nghyfarfod yr Awdurdod Parc Cenedlaethol y bore hwnnw.

Gan ddiolch i'r Aelodau am eu cyfraniadau, dywedodd y swyddog mai'r bwriad oedd dwyn y Cynllun Hyfforddiant gerbron cyfarfod mis Medi o'r Awdurdod Parc Cenedlaethol.

**PENDERFYNWYD** mabwysiadu'r Cynllun Hyfforddiant Cefnogi a Datblygu Aelodau cyn belled â bod y sylwadau a nodir uchod yn cael eu cynnwys.

---------------------------------------------------------------------------------------------------

Cadarnhawyd y cofnodion hyn yn y cyfarfod o'r Pwyllgor Cefnogi a Datblygu Aelodau a gynhaliwyd ar 21 Hydref 2020 heb eu diwygio.